



# Y Strategaeth Economi Gylchol

## YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein pwrpas yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud gwahaniaeth gyda'i gilydd.
2. Rydym yn falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth Economi Gylchol. Mae'r sector gwirfoddol wedi bod ar flaen y gad wrth greu a hybu'r economi gylchol. Mae hynny'n cynnwys mentrau byd-eang megis 'Freecycle', yn ogystal â siopau elusen a lluo o fentrau cymdeithasol lleol. Diolchwn i'r mudiadau a'r unigolion hynny a gyfrannodd dystiolaeth i'n hymateb.
3. Credwn mai mudiadau amgylcheddol sydd yn y lle gorau i ateb nifer o gwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn, megis y rheiny ar fanylion technegol ailgylchu a'r defnydd o ddeunyddiau; serch hynny, ceir nifer o gwestiynau mwy trawsbynciol sydd o ddiddordeb ar draws y sector gwirfoddol ehangach. Mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio ar y rheiny.

## DEFNYDDIO YSGOGIADAU'R LLYWODRAETH

4. Mae angen annog newid hirdymor mewn ymddygiad er mwyn cynorthwyo cynhyrchwyr i roi mwy o ystyriaeth i aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau. Adleisiwn alw Canolfan Cydweithredol Cymru ar i amodau fod ynghlwm wrth brosesau caffael ar gyfer aildefnyddio ac addasu deunyddiau at ddibenion eraill er mwyn sicrhau'r gwerth economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl.
5. Dylai buddion cymunedol fod yn ofynion craidd mewn cytundebau, yn hytrach nag ychwanegiadau dymunol yn unig.

6. Fe ddylem, wrth gwrs, anelu at sicrhau nad yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn prynu 'cynnyrch sy'n effeithio mewn modd niweidiol ar hawliau dynol neu'r amgylchedd mewn gwledydd eraill', ond, ar yr un pryd, dylem geisio sicrhau nad oes effaith niweidiol yn cael ei wneud i hawliau dynol ac amgylchedd y DU.
7. Carem weld yr ymrwymiad a amlinellir ym mharagraff 6 yn cael ei gyflwyno mewn diweddariad i'r Strategaeth Ryngwladol yn y dyfodol.
8. Mewn perthynas â'r adolygiad o'r tâl am fagiau siopa - carem weld Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r hyn y gobeithiant ei weld yn dod o'r adolygiad hwn cyn iddo ddechrau, ac yn cynnwys y sector gwirfoddol mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'r tâl yn y dyfodol.
9. Rhaid i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn greiddiol i Strategaeth Economi Gylchol newydd er mwyn sicrhau cynnydd tuag at y saith Nod Llesiant. Fel nodwyd gan Maint Cymru (Size of Wales) yn ei ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddai hyn yn caniatáu cyflwyno a hybu arferion caffael cynaliadwy ar draws pob lefel o lywodraeth.
10. Byddem hefyd yn disgwyl i'r Strategaeth gael ei hymgorffori â'r nod o waith teg ac economi gynhwysol fel disgrifiwyd yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol. Yn benodol, ymddengys y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a amlinellir yn y Bil yn gwbl addas, gydag ymrwymiad gan y sector gwirfoddol er mwyn sicrhau economi sy'n mynnu ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau.
11. Rhaid i unrhyw newidiadau mewn strategaethau caffael ymlynu at y Cod Ymddygiad ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, a dylid atgoffa awdurdodau lleol o hyn.

## **GALLUOGI CYMUNEDAU A BUSNESAU**

12. Mae un cwestiwn yn gofyn: 'A yw cefnogaeth barhaus i fusnesau er mwyn iddynt fod yn fwy effeithlon yn flaenoriaeth?'. Carem gael sicrwydd fod Llywodraeth Cymru yn cynnwys mentrau cymdeithasol yn y diffiniad hwn o fusnesau.
13. Mae dod â chymunedau a busnesau at ei gilydd i weithredu ar y cyd yn hanfodol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau mai ychydig, os o gwbl, o fiwrocratiaeth ychwanegol sydd ynghlwm wrth y broses gan y gallai hynny ddal yn ôl gweithgarwch a ddylai ffynnu o ganlyniad i'r Strategaeth.
14. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau sy'n bodoli eisoes yn ogystal â rhai newydd, neu gallem weld sefyllfa lle bydd mudiadau'n gwneud yr un gwaith ac yn

cystadlu am yr un potiau arian. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, ceir nifer o fudiadau aildddefnyddio ac atgyweirio - dylid eu holi ynglŷn ag unrhyw gynlluniau i ehangu cyn i fudiadau newydd tebyg gael eu sefydlu.

15. Mae cyllid craidd i brosiectau yn hanfodol er mwyn i'r mudiadau hynny fedru talu rhent, talu costau staffio, prynu cerbydau a thalu unrhyw gostau angenrheidiol er mwyn cychwyn arni.
16. Byddai'r math o brosiectau a gefnogir gan Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn elwa o gyllido mwy hirdymor er mwyn gwreiddio'r gwaith da a wneir ganddynt o ddifri mewn cymunedau.
17. Fel y dywedodd Canolfan Cydweithredol Cymru, mae angen i fusnesau cymdeithasol feintoli a mesur eu gwerth cymdeithasol fel bod modd hyrwyddo'r gwerth hwn i brynwyr.
18. Dylid buddsoddi mwy o adnoddau mewn datblygu cyfalaf cymdeithasol ymhellach er mwyn sicrhau bod pobl wedi ymgysylltu'n llwyr a'u bod yn medru bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Fel nodir yn ein hadroddiad [Grymuso Cymunedau](#), yr ardaloedd hynny lle ceir digonedd o gyfalaf cymdeithasol yw'r ardaloedd sydd â pherthynas dda â phenderfynwyr. Gall hyn yn ei dro sicrhau cyd-gynhyrchu gwasanaethau gwirioneddol, gan arwain at wellhad mewn amgylcheddau lleol ac achosi gwell lles corfforol a meddyliol.
19. Mae'r ['Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#) a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cyfres o egwyddorion i ddarparwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl a chymunedau wedi'u galluogi i ymgysylltu â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

## **BUDDSODDI MEWN SEILWAITH**

20. Rhaid i'r sector gwirfoddol fod ynghlwm yn y broses o hyrwyddo seilwaith gymunedol sy'n cynorthwyo i leihau gwastraff er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud ar lefel llawr gwlad, yn hytrach na chael ei orfodi o'r pen ucha' i lawr. Bydd hyn yn golygu bod pob sector, a phreswylwyr, yn cydweithio ar gynllun a chyflwyniad gwasanaethau.
21. Er mwyn i'r sector chwarae rhan lawn yn yr Economi Gylchol, rhaid iddo dderbyn cefnogaeth ac adnoddau hirdymor. Er ein bod yn deall yr hinsawdd gyfredol sydd ohoni, ailadroddwn ein galwad am gylchoedd cyllido tair i bum mlynedd. Mae'r sector gwirfoddol wedi cynnal sgysiau â'r Gweinidog Cyllid ynglŷn â hyn.

## TRAFODAETH

22. Bydd CGGC yn falch o drafod yr uchod neu unrhyw bwyntiau ychwanegol yn ymwneud â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad â swyddogion, pwyllgorau neu Weinidogion pe gofynnid i ni.

*David Cook*  
*Swyddog Polisi, CGGC*  
[dcook@wcva.cymru](mailto:dcook@wcva.cymru)  
*30 Mawrth 2020*